# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 16 Mai 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 18 Mai 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 18 Mai 2018 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET: Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol**

---

**PWNC**: Mewnoli Gwasanaeth Uwch Grwner Ardal Gogledd Orllwein Cymru

---

**PENDERFYNIAD –:** Gweler yr adroddiad atodedig sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer mewnoli Gwasanaeth Uwch Grwner Ardal Gogledd Orllwein Cymru

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**
Gweler yr adroddiad atodedig

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**
Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 16 - Mai - 18. |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | N. Jeffreys |

**Pwnc : Mewnoli Gwasanaeth Uwch Grwner Ardal Gogledd Orllewin Cymru**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

(1) Trosglwyddo gwasanaeth cefnogol Uwch Grwner Ardal Gogledd Orllewin Cymru i'w ddarparu yn uniongyrchol gan y Cyngor yn ei swyddfeydd.

(2) Trosglwyddo swydd y Clerc y Crwner i gyflogaeth y Cyngor

(3) Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar drefn newydd o dalu cyflog i'r Uwch Grwner a ffi i'r Crwner Cynorthwyol.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae datblygiadau diweddar wedi codi'r angen i adolygu'r trefniadau presennol Gwasanaeth y Crwner sydd yn golygu fod modd gweithredu adolygiad o weinyddiaeth cyfundrefn y Crwner i gryfhau'r ddarpariaeth ac mewn modd sydd yn lled gost niwtral.

**Cefndir Cyffredinol**

Mae Cymru a Lloegr wedi eu rhannu yn ardaloedd crwnerol, gyda'r awdurdodau lleol perthnasol yn ariannu'r gwasanaethau unigol. Mae Ardal Crwner Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys Gwynedd a Môn ac ariannir y gwasanaeth ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod arweiniol, sy'n golygu bod dyletswydd statudol arnom i gwrdd â'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan yr Uwch Grwner staff a swyddfeydd sy'n galluogi iddo gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r gwasanaeth yn ei hanfod yn un lleol, gyda'r

union drefniadau yn fater i'w cytuno rhwng pob awdurdod lleol a'u Huwch Grwneriaid.

Mae Uwch Grwner yr ardal hon yn rhedeg ei wasanaeth o swyddfeydd cwmni cyfreithwyr yng Nghaernarfon, lle bu'n gweithio fel cyfreithiwr tan ei ymddeoliad diweddar. Mae un **Crwner Cynorthwyol** yn gwasanaethu'r ardal hefyd sy'n ymdrin ag achosion pan na fydd yr Uwch Grwner ar gael neu ar unrhyw adeg arall gyda chytundeb yr Uwch Grwner.

## (1) DARPARU SWYDDFEYDD A STAFF AR GYFER Y CRWNER

### Trefniant Presennol

Mater i bob awdurdod arweiniol a'r Uwch Grwner yw cytuno ar yr union natur y trefniadau rhyngddynt. Yn yr ardal hon, telir Lwfans iddo, i'w ddigolledi am y gost o dalu am ei swyddfa a'i staff. Mae'r lwfans presennol yn £28,188 y flwyddyn. Cytunwyd ar y lwfans yn dilyn yr adolygiad diwethaf yn 2004. Ychwanegwyd chwyddiant yn flynyddol at y swm hyd at 2011/12.

Defnyddia'r Uwch Grwner y lwfans yma i rentu gofod swyddfa a chyflogi clerc sydd yn gweithio iddo yn llawn amser. Ef sy'n gyfrifol am drefnu unrhyw staff cyflenwi ac unrhyw gefnogaeth weinyddol ychwanegol sydd ei angen arno.

Darperir cefnogaeth weinyddol bellach gan staff Cyngor Gwynedd, yn bennaf drwy brosesu â thalu biliau. Mae'n derbyn cefnogaeth gan wasanaethau eraill yn ôl y gofyn.

### Datblygiadau Diweddar

Yn dilyn ymddeoliad diweddar yr Uwch Grwner fel cyfreithiwr, daeth i'r amlwg ac yn sgil adolygiad costau gan y cwmni cyfreithwyr oedd yn ei letya fod y cynnydd yn y gost a'r lwfans yn arwain at adolygiad o'r trefniadau. Derbyniodd y Cyngor gais gan yr Uwch Grwner i gynyddu'r lwfans i gwrdd â'r costau hyn. Mae'r lwfans felly wedi ei gynyddu ar sail dros dro tra bod y trefniant rhyngddo a'r Cyngor yn cael ei adolygu. Mae hyn yn golygu y telir £3,626 y mis, sy'n gyfystyr â £43,512 y flwyddyn.

Mae hefyd ystyriaethau ehangach sy'n golygu bod adolygu'r trefniant yn amserol:

- Yr angen i adlewyrchu'r newidiadau strwythurol i'r system grwner yn sgil Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009
- Y pwyslais cynyddol ar gael gwasanaeth y crwner o dan yr un to cyn belled ag sy'n bosib.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

**(1) Swyddfeydd a Staff**

Gan y byddai parhau gyda'r trefniadau presennol yn barhaol yn golygu cynnydd yn y gwariant ar y gwasanaeth, mae angen adolygu natur y trefniant ac ystyried unrhyw opsiynau eraill posib.

Ystyriwyd mai dau opsiwn ymarferol sydd ar gael, sef:

(1) Parhau gyda'r trefniant presennol yn barhaol. Amrywiaeth o'r opsiwn hwn fyddai i'r Cyngor ddod i drefniant uniongyrchol gyda'r cwmni cyfreithwyr, neu edrych am eiddo arall a ellid ei rentu.

(2) Newid i drefniant lle darperir swyddfeydd o fewn adeiladau'r Cyngor . Byddai hyn yn golygu model ar hyd y llinellau canlynol:

- Darparu swyddfeydd i'r Uwch Grwner, y Crwner Cynorthwyol a Chlerc y Crwner
- Byddai'r Clerc yn trosglwyddo i fod yn gyflogedig gan y Cyngor fel aelod o staff
- Defnyddio staff presennol o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol i gyflenwi yn absenoldeb y Clerc
- Rheolaeth linell broffesiynol i'r Clerc yn cael ei ddarparu gan yr Uwch Grwner
- Rheolaeth linell cyflogwr i'r Clerc yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Cyfreithiol
- Gwasanaethau Swyddfa a systemau TG yn cael ei ddarparu gan y Cyngor fel unrhyw wasanaeth arall (offer a chefnogaeth TG, argraffwyr, gwasanaethau cefnogol, post ayb)
- Ni fyddai statws yr Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol yn newid -penodir a thelir hwy gan yr awdurdod ond nid ydynt yn gyflogai ond yn hytrach ddeiliaid swyddogaeth. Felly mae'r newid ond yn ymwneud â lleoliad a staffio cefnogol.

**<u>Asesiad o'r Opsiynau</u>**

**<u>Oblygiadau Ariannol</u>**

Fel canlynaid i'r cynydd diweddar yng nghostau swyddfa'r Uwch Grwner, mae'r gost i'r Cyngor o gyflawni ei ddyletswydd statudol o ddarparu llety a staff wedi cynyddu'n sylweddol. Byddai dod â'r gwasnaeth i mewn i'r Cyngor, yn gost-niwtral o'i gymharu â chyllideb gyfredol y gwasanaeth Ceir dadansoddiad o'r costau cymharol yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn (dogfen eithriedig).

Costau Swyddfa

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor cadarnhawyd y byddai lleoli'r gwasanaeth o fewn y swyddfeydd sydd wedi eu hadnabod o fewn y Cyngor yn golygu cost i gyllideb y gwasanaeth (i'w drosglwyddo i'r Gwasanaeth Eiddo) ar y sail bod y Cyngor yn colli'r cyfle i osod y swyddfeydd i gwmni neu asiantaeth allanol. Byddai 'r gost yma yn cyfateb i'r hyn a delir am y swyddfeydd presennol ond byddai'n arian fyddai yn cael ei ddarparu i'r Cyngor yn hytrach nag yn wariant allanol.

Costau Staff

Mae arfarniad o swydd Clerc y Crwner yn dangos y byddai'r gost i'r Cyngor o gyflogi'r Clerc ar raddfa cyflogau'r Cyngor yn cynnwys taliadau pensiwn ac yswiriant cenedlaethol ychydig yn uwch na'r costau staffio o dan y trefniant presennol

Rhaid cydnabod y posibilrwydd o daliadau diswyddo yn ddibynol ar ddatblygiadau yn y dyfodol gan y byddaicyfnod gwasanaeth y Clerc yn trosglwyddo gyda hi

Costau Eraill

Mae dadansoddiad bras o'r costau swyddfa eraill (papur, llungopïo ayb) yn dangos arbediad bychan pe bai'r gwasanaeth yn dod i mewn i'r Cyngor Credir serch hynny y byddai arbedion pellach yn amlygu eu hunain dros amser fel canlyniad o integreiddio i systemau'r Cyngor.

Byddai costau paratoi'r swyddfa a symud ond rhai unwaith ac am byth fyddai'r rhain.

Wrth gymharu'r gost o gynyddu'r lwfans i gynnal y sefyllfa gyfredol gyda chost mewnoli'r gwasanaeth gwelir y byddai effaith mewnoli yn gyffredinol yn niwtral o safbwynt costau.

Atodir taenlen yn dangos y costau cymharol fel **Atodiad (dogfen eithriedig).**

**Ystyriaethau eraill**

(1) Parhau gyda'r trefniant presennol

Yr opsiwn o barhau gyda'r trefniant presennol, gan gynyddu'r lwfans, fyddai'r ateb hawsaf ei gyflawni yn y tymor byr.

Serch hynny, ystyrir bod anfanteision i'r opsiwn hwn:

- Drwy ddibynnu ar leoliad sy'n eiddo i, ac o dan reolaeth cwmni allanol, ni fyddai'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor o safbwynt lleoliad tymor hir y gwasanaeth nac o safbwynt y gost i'r cyngor (a Chyngor Môn).

- Ansicrwydd ynglŷn â beth fyddai'r sefyllfa ar ôl ymddeoliad yr Uwch Grwner presennol. Mae'r lleoliad presennol yn ganlyniad i sefyllfa hanesyddol. Byddai'r drefn sydd yn cael ei hargymell yn rhoi sylfaen fwy sicr a chyfredol i'r ddarpariaeth gwasanaeth y Crwner petai adolygiad ehangach o'r Gwasanaeth yn deillio e.e. ar sail darpariaeth ranbarthol.

<u>(2) Lleoli'r gwasanaeth o fewn swyddfeydd y Cyngor</u>

Rhagwelir y byddai lleoli'r gwasanaeth o fewn swyddfeydd y Cyngor yn dod â'r manteision canlynol:

- Mae ystafelloedd addas ar gael – sef hen swyddfeydd Archwilio Cymru
- Darparu swyddfa sefydlog benodol a fyddai'n hwyluso gwaith gwasanaeth y Crwner ac a fyddai'n fwy addas i deuluoedd pan fyddant yn gorfod ymweld
- Swyddfeydd wedi eu lleoli yn agos y cofrestryddion genedigaethau a marwolaethau - mwy hwylus i deuluoedd a hefyd yn hwyluso'r cyswllt gweithio rhwng y ddwy swyddfa
- Bydd cwestau yn cael eu cynnal o hyn ymlaen yn Siambr Dafydd Orwig sy'n fwy addas na Siambr Arfon ym Mhenrallt lle cynhelir hwy ar hyn o bryd. Byddai lleoli'r gwasanaeth y drws nesaf i'r Siambr yn cyd-fynd gyda'r trefniant yma ac yn gwella a hwyluso'r ddarpariaeth i bawb ar ddiwrnod cwest)
- Caniatáu cyswllt agosach a mwy rheolaidd rhwng y Cyngor a'r Uwch Grwner
- Mwy o reolaeth a sicrwydd i'r Cyngor o safbwynt costau
- Arbedion tebygol - cefnogaeth weinyddol, caffael, systemau'r cyngor ayb
- Darparu gwytnwch i'r gwasanaeth – staff cyflenwi a chymorth arall pan fyddai angen
- Sicrhau lleoliad addas hirdymor yng Ngogledd Orllewin Cymru.
- Cyd-fynd gyda'r cyfeiriad cyffredinol foderneiddio ar draws Cymru a Lloegr
- Galluogi'r oruchwyliaeth fwy manwl gan yr awdurdod fydd yn angenrheidiol yn sgil newidiadau arfaethedig i drefniadau talu Crwneriaid (gweler rhan 2 o'r adroddiad hwn am fanylion)

**<u>Goblygiadau i'r Gwasanaethau Cyfreithiol</u>**

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol eisoes yn gyfrifol am ddyletswyddau'r Cyngor fel Awdurdod Arweiniol. Byddai trefniant fel y disgrifir uchod yn hwyluso'r gwaith yma ac yn galluogi mwy o drosolwg a pherthynas waith agosach gyda'r Uwch Grwner.

Byddai goblygiadau o safbwynt llwyth gwaith gan y byddai angen darparu cefnogaeth weinyddol sef:

(1) Cymorth gweinyddol achlysurol
(2) Gweithredu yn absenoldeb y Clerc am gyfnodau byr (diwrnod neu ddau)

(3) Absenoldeb 'hir' (salwch neu wyliau) - cyflawni'r dyletswyddau hynny sy'n angenrheidiol i weithrediad y gwasanaeth

Rhagwelir byddai modd cyfarch y gofynion hyn drwy ddefnyddio staff presennol oddi fewn i'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

## (2) TÂL

Mae Deddf 2009 yn darparu bod gan uwch grwneriaid yr hawl i gyflog a chrwneriaid cynorthwyol yr hawl i ffi. Mae gan uwch grwneriaid hefyd yr hawl i bensiwn llywodraeth leol.

Mae'r Ddeddf yn darparu mai mater i'r Uwch Grwner a'r awdurdod lleol yw cytuno ar y tâl (gyda hawl i gyfeirio at yr Arglwydd Ganghellor os bydd anghytundeb). Yn ymarferol serch mae Cydbwyllgor Negodi Cenedlaethol y Gymdeithas Lywodraeth Leol yn gosod graddfeydd tâl. Mae'r Cydbwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o ochr yr awdurdodau lleol ac o ochr y crwneriaid. Mae'r cytundeb presennol wedi ei osod gan Gylchlythyr 51 a gyhoeddwyd yn 2011 ac sy'n adlewyrchu'r sefyllfa cyn i newidiadau'r Ddeddf ddod i rym. Er bod awydd o'r ddwy ochr i ddiweddaru'r drefn mae'r broses o ddod i gytundeb wedi bod yn un hir ac anodd.

Nid yw'r Uwch Grwner na'r Crwner Cynorthwyol yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod ac fel canlyniad nid oes modd cael cytundeb cyflogaeth ffurfiol. Wedi dweud hynny, mae'r Ddeddf yn darparu y bydd Crwner yn dal y swydd ar ba bynnag delerau y bydd yr awdurdod a'r Crwner yn eu cytuno o bryd i'w gilydd.

Ar hyn o bryd nid oes cytundeb ffurfiol rhwng yr Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol a'r awdurdod ynglŷn â'r math o faterion fyddai dod o fewn cytundeb cyflogaeth e.e. oriau gwaith, trefniadau gwyliau, salwch ayb. Mae cytundebau o'r fath yn bodoli mewn rhai ardaloedd crwnerol eraill.

## Y DREFN NEWYDD

Mewn ymgais i ddod i gytundeb, comisiynodd y Cydbwyllgor gwmni Korn Ferry Hay Group i gynnal arfarniad o'r gwahanol swyddi o dan Ddeddf 2009 ac ystyried y trefniadau tâl. Ar 2 Tachwedd 2017, cyhoeddwyd Cylchlythyr 61 gan y Cydbwyllgor yn datgan bod y ddwy ochr wedi cytuno mewn egwyddor ar drefn newydd o dalu crwneriaid. Ar 8 Ionawr 2018 cyhoeddwyd cylchlythyr 62 yn cynnig arweiniad mwy manwl. Byddai hyn yn golygu:

<u>Uwch Grwneriaid Rhan-amser</u>

- Cyflog sylfaenol o £20,000 (yn cynnwys gwaith statudol 'allan o oriau')
- Taliadau am bob diwrnod a weithir – graddfa ddyddiol rhwng £440 a £500, yn ddibynnol ar gymhlethdod yr ardal
- Gosodir uchafswm ar enillion, sef lefel cyflog Uwch Grwner Llawn Amser ardal o gymhlethdod cymharol (£117,000 - £130,000)

- Lwfans pensiwn o 5.5% presennol yn cael ei ddileu
- Dileu'r ychwanegiad oherwydd natur yr ardal ('county loading')

Crwneriaid Cynorthwyol

- Talu am waith a gyflawnir
- Graddfa ddyddiol o £375 i £454 yn ddibynnol ar gymhlethdod yr ardal
- Dwy raddfa yn ddibynnol ar gymhlethdod achosion

Taliadau Cwest Hir

- Dileu yn llwyr

**Goblygiadau**

Bydd lefel tâl (oni bai am gyflog sylfaenol yr Uwch Grwner) yn cael ei benderfynu'n lleol, yn unol â chymhlethdod yr ardal benodol.

Bydd angen dod i gasgliad ar lefel y cymhlethdod hynny ar sail tystiolaeth a thrwy gymryd i ystyriaeth nifer o ffactorau yn cynnwys y rhai a nodir y Cylchlythyr 62 (nifer a math yr achosion, presenoldeb carchardai a sefydliadau tebyg, ysbytai, unedau iechyd meddwl).

Y cam nesaf fydd agor trafodaeth gyda'r Uwch Grwner sut y byddwn yn sefydlu a gweithredu'r drefn newydd. Bydd hefyd modd trafod gydag ardaloedd eraill tebyg i weld os oes modd cael cysondeb yn y modd yr ymdrinnir â'r materion yma.

**Barn Cyngor Sir Ynys Môn**

Mae'r cynlluniau yma wedi eu trafod gyda Chyngor Ynys Môn ar lefel swyddogion ac nid oedd ganddynt wrthwynebiad. Byddwn yn parhau i gyfathrebu gyda'r awdurdod wrth i'r cynlluniau symud yn eu blaenau.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid – Rwy'n gefnogol i'r argymhelliad i fewnoli elfennau o wasanaeth y Crwner ac i addasu agweddau eraill o'r drefn gyfredol. Cadarnhaf yr oblygiadau ariannol nodwyd yn yr adroddiad, sef byddai'r newid yn lled gost-niwtral o'i gymharu â chyllideb gyfredol y gwasanaeth, ac yn cynorthwyo i osgoi gwariant uwchben lefel y gyllideb.

Swyddog Monitro –cyd-awdur yr adroddiad